Pwyllgor yr Amgylchedd
Cylch Gorchwyl
Cyngor Cymuned  Llandybïe

**1.Pwyllgor**

Mae Pwyllgor yr Amgylchedd wedi'i gyfansoddi fel Pwyllgor Sefydlog Cyngor Cymuned Llandybïe.

2**. Aelodau**

Saith aelod gyda'r hawl i bleidleisio, yn cael eu penodi'n flynyddol, ynghyd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor Cymuned.

Bydd 3 aelod yn cynrychioli cworwm y pwyllgor.

3. **Pleidleisio**

Dim ond yr uchod fydd â'r hawl i bleidlesio a chyfranogi at y cyfarfod. Os bydd y bleidlais yn gyfartal bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidais fwrw.

4. **Buddiannau**

Os y bydd gan aelod fuddiant personol fel y'i diffinir yn y Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Cymuned Llandybïe yna rhaid iddo fe/ iddi hi ddatgan y fath fuddiant cyn gynted a ddaw i'r amlwg, gan ddatgelu natur a maint y buddiant fel bo'r angen.

Os bydd aelod sydd wedi datgan buddiant yna'n ystyried bod y buddiant hwnnw'n fuddiant rhagfarnus, rhaid iddo fe/iddi hi adael yr ystafell tra bod yr eitem agenda perthnasol hwnnw'n cael ei drafod.

5**. Cadeirydd**

Is-Gadeirydd y Cyngor fydd Cadeirydd y Pwyllgor fydd; os yw'r Is-Gadeirydd yn absennol bydd y Cadeirydd yn cymryd y Gadair.

6. **Cyfarfodydd**

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn ôl gofyn y llwyth gwaith, a roddir rhybudd o isafswm o 5 diwrnod gwaith.

7**. Cylch Gorchwyl**

Adolygu Cylch Gorchwyl Pwyllgor yr Amgylchedd pan fo angen, a chyflwyno argymhellion priodol gerbron y Cyngor Llawn.

**8. Cyfrifoldebau**

Cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli materion Amgylcheddol y Cyngor yn unol â'r gofynion, rheoliadau a chanllawiau deddfwriaethol.

Bydd y rhain yn cynnwys:

- Hyrwyddo materion Newid Hinsawdd ac Amgylcheddol drwy gydweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, lle bo hyny'n briodol, er mwyn cyflawni canlyniad positif am newid amgylcheddol.
- Sicrhau bod gwaith y Cyngor yn mynd yn ei flaen a bod effeithlonrwydd ynni yn flaenoriaeth.

Pwyllgor yr Amgylchedd
Cylch Gorchwyl
Cyngor Cymuned Llandybïe

- Ceisio ymwneud, yn weithredol, gyda phrosiectau effeithlonrwydd ynni a chynnig ffyrdd y gall y Cyngor helpu lleihau allyriadau, yn fewnol ac yn y gymuned ehangach.
- Sicrhau bod allyriadau carbon yn cael eu hystyried ym mhob un o gynlluniau a phrosiectau'r Cyngor Cymuned.
- Annog a chefnogi gosod a defnyddio ynni adnewyddadwy, storio mewn batris a thechnolegau carbon isel yn yr ardal.
- Creu isafswm gwastraff o'n gweithgraeddau ein hunain a chadw at yr egwyddorion o leihau, ailddefnyddio neu gompostio lle bynnag bo hynny'n bosibl.
- Hyrwyddo ffyrdd y gall y Cyngor helpu gwella Bioamrywiaeth.
- Sicrhau bod bioamrywiaeth y cael ei ystyried ym mhob un o gynlluniau a phrosiectau'r Cyngor.
- Adolygu cynllun bioamrywiaeth y Cyngor yn flynyddol, a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Trafodwyd a chytunwyd yr uchod yng nghyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar Awst 15fed, 2022 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar Fedi 28ain, 2022.

| | |
|---|---|
| P. H. Roberts | S. Griffith |
| ……………………………………………………… | ………………………………………………………… |
| Cadeirydd | Clerc |